**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Iau, 29 Medi 2022**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Elen Heaton<br>Byddai'r Cynghorydd Julie Matthews ychydig yn hwyr i'r cyfarfod o ganlyniad i ymrwymiad cynharach. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn:*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*<br><br>*(b) cymeradwyo'r cyfleusterau storio halen newydd yn safleoedd depos Corwen a Lôn Parcwr, Rhuthun fel y nodir yn Adran 6.9 ac Atodiad 5 yr adroddiad, a*<br><br>*(c) chymeradwyo datblygu ac adeiladu cyfleusterau lles, storio cerbydau a chyfarpar newydd yng Ngerddi Botanegol y Rhyl, fel y nodir yn Adran 6.9 ac Atodiad 5 yr adroddiad.* |
| **6** | CAM 2 GWAITH ÔL-OSOD TAI CYMDEITHASOL - RHYDWEN DRIVE, Y RHYL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn:*<br><br>*(a) dyfarnu'r contract yn uniongyrchol i'r contractwr sy'n ymgymryd â cham 1 y gwaith ar hyn o bryd yn seiliedig ar y cyfraddau cystadleuol a geir drwy Fframwaith Ynni'r Gynghrair Caffael Gymreig fel y cytunwyd arnynt gan yr Adain Gaffael, a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b) bod y cyfnod galw i mewn 5 diwrnod sydd ei angen cyn gweithredu penderfyniad y Cabinet yn cael ei hepgor ar y sail bod y contract presennol yn dod i ben ar 30 Medi 2022 ac y bydd unrhyw oedi o ran dyfarnu'r contract yn arwain at gostau ychwanegol ac oedi yn y rhaglen gan arwain at y risg o fethu dyddiadau cau a nodwyd wrth amodi bod rhaid gwario grantiau erbyn dyddiadau penodol.* |
| **7** | SEFYDLU BWRDD RHEOLI MAETHYNNAU I FYND I'R AFAEL Â LLYGREDD FFOSFFORWS YN ARDAL CADWRAETH ARBENNIG "AFON DYFRDWY A LLYN TEGID" | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno:*<br><br>*(a) bod Cyngor Sir Ddinbych yn ymuno â'r Bwrdd Rheoli Maethynnau ac yn cydweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â llygredd ffosfforws yn nalgylch Afon Dyfrdwy a*<br><br>(b) *bod Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant yn cynrychioli'r Cyngor, gyda'r Aelod Arweiniol Cynllunio a Datblygu Lleol yn ddirprwy.* |
| **8** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet*. |